

CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD 12.05.25 am 7.00pm, yn
Neuadd y Pensiynwyr. MINUTES OF MEETING HELD ON 12.05.25 at
7.00pm at The Pensioner Hall

	YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr S Jones, H N Evans, R Jones, Ann Williams, D Roberts, Aled Williams, G Owen (Clerc) a 5 aelod o'r cyhoedd.	PRESENT: Cllrs S Jones, H N Evans, R Jones, Ann Williams, D Roberts, Aled Williams, G Owen (Clerc) and 5 members of the public.
1	Croeso ac ymddiheuriadau – Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd S Jones, bawb i'r cyfarfod gan gynnwys aelod newydd, y Cynghorydd Aled Williams ac aelodau'r cyhoedd. Dywedodd hefyd ei bod yn gobeithio y bydd y Cynghorydd O Williams yn gwella'n fuan o afiechyd. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C Summers, O Williams a D Fowlie (Cynghorydd Sir).	Welcome and apologies - The Chairman, Cllr S Jones welcomed everyone to the meeting including a new member, Cllr Aled Williams and members of the public. She also stated that it is hoped Cllr O Williams will soon recover from ill health. Apologies for absence were received from Cllrs C Summers, O Williams and D Fowlie (County Councillor).
2	Datgan Diddordeb - Y Cynghorydd Aled Williams – eitem 6.2	Declarations of Interest – Cllr Aled Williams – item 6.2
3	Derbyn cofnodion y cyfarfod misol diwethaf – Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 07.04.25 fel cofnod cywir.	Acceptance of minutes of last monthly meeting – The minutes of the meeting of 07.04.25 were accepted as a true record.
4	Materion yn codi o'r cofnodion	Matters arising from the minutes
4.1	Mynwent St Morhaiarn – Mae'r Clerc yn aros i'r asiant gadarnhau ei fod wedi cyflwyno'r cais cynllunio.	St Morhaiarn Cemetery – The Clerk is waiting for the agent to confirm that he has submitted the planning application.
4.2	Lorïau'n goryrru – Mae sawl sesiwn hyfforddi wedi digwydd ynghylch defnyddio gynnu cyflymder. Hyd yn hyn, mae 56 wedi cael eu dal yn goryrru. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei rhoi i'r heddlu. Nid yw Hannon wedi ymateb eto i lythyr gan Lywodraeth Cymru/Andy Dunbobbin (Comisiynydd yr Heddlu) yn eu cyfarwyddo i ddargyfeirio lorïau i'r A5 a phedidio â theithio trwy Walchmai.	Speeding Lorries – Several training sessions have taken place regarding using speed guns. So far, 56 have been caught exceeding the speed limit. This evidence will be given to the police. It is understood that Hannon lorries have not yet responded to a letter from the Welsh Government/Andy Dunbobbin (Police Commissioner) instructing them to divert lorries to the A5 and not travel through Gwalchmai.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 02.06.25	Signature Chairman Date 02.06.25

4.3	Taliadau Adran 106 – Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan Gymdeithas Tai Gogledd Cymru yn gofyn a ydynt wedi gwneud unrhyw daliadau Adran 106.	Section 106 payments –The Clerk is waiting for a response from North Wales Housing Association asking if they have made any S106 payments.
4.4	Camfa (Gweithdy) Mae'r Clerc yn aros i glywed gan y Cyngor Sir ynglŷn â gosod camfa newydd.	Stile (Gweithdy) –The Clerk is waiting to hear from the County Council regarding installing a new stile.
4.5	Gully Bryn Tirion/Annwylfa – Mae'r Clerc yn aros am ymateb y Cyngor Sir.	Gully Bryn Tirion/Annwylfa – The Clerk is waiting for the County Council to respond.
4.6	Maes Pêl-droed – Mae'r Cyngor Sir yn aros am ddyddiad cychwyn ar gyfer gwneud y gwaith.	Football Field – The County Council are waiting for a start date for the work to be done.
4.7	Mesur Traffig - Mae'r AS wedi ymateb ac mae'n gweithio ar y mater hwn gyda Rhun ap Iorwerth.	Traffic Measurement –The MP has responded and is working on this matter with Rhun ap Iorwerth.
4.8	Arddangosfa electronig safle bws – mae hyn wedi cael ei atgyweirio.	Bus stop electronic display – this has been repaired.
4.9	Parcio l'r anabl - Mae'r Cyngor Sir yn delio â'r mater hwn	Disabled parking – The County Council are dealing with this matter
4.10	Mynediad i Feddygfa Gwalchmai – Mae'r Clerc yn aros am ddiweddariad gan y Panel Mynediad yn BCUHB	Access to Gwalchmai Surgery – The Clerk is waiting for an update from the Access Panel at BCUHB
4.11	Yswiriant HWB Gwalchmai – Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan Yswiriant Zurich ynglŷn â chost y dyfynbris ychwanegol.	HWB Gwalchmai Insurance – The Clerk is waiting for a response from Zurich Insurance regarding the cost of the additional quote.
4.12	Pen y Bryn Uchaf – Mae'r perchennog wedi gwneud cais i'r Cyngor Sir am drwydded i gywiro'r gwaith.	Pen y Bryn Uchaf – The owner has applied to the County Council for a licence to correct the works.
5	Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn	Correspondence Anglesey County Council
	Cynllunio	Planning
5.1	Chwarel Gwalchmai – Mae'r Cynghorydd H N Evans wedi derbyn cwynion ynglŷn â'r sŵn gormodol yn ystod y ffrwydradau diweddar yn y chwarel. Mae'r Cyngor Sir yn cadarnhau eu bod yn ymchwilio.	Gwalchmai Quarry – Cllr H N Evans has received complaints regarding the excessive noises during recent blasting at the quarry. The County Council confirm that they are investigating.
5.2	FPL/2025/25 Cais llawn i ddymchwel yr adeiladau allanol presennol ynghyd â chodi sied amaethyddol yn ei lle ym Mhen yr Orsedd, Gwalchmai – dim sylwadau.	FPL/2025/25 Full application for the demolition of the existing outbuildings together with erection of an agricultural shed in lieu at Pen yr Orsedd, Gwalchmai – no comments.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 02.06.25	Signature Chairman Date 02.06.25

	Priffyrdd	Highways
5.3	Pen y Bryn Uchaf – gweler 4.12	Pen y Bryn Uchaf – see 4.12
5.4	Arwydd 20mya Gwalchmai – Mae'r Cyngor Sir yn datgan eu bod wedi archebu arwydd 20mya newydd i'w osod ar yr A5 wrth ddod i mewn i Gwalchmai o gyfeiriad Llangefni.	20mph sign Gwalchmai – The County Council state that they have ordered a new 20mph sign to be placed on the A5 on entering Gwalchmai from the Llangefni direction.
6	Gohebiaeth Arall	Other Correspondence
6.1	Kerry Parry AMP – Mae AMP wedi ymateb gan amgáu llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn yn cadarnhau y bydd datblygiad Crown St yn cael ei alw'n Stad Ty'n Llan. Yn unol a pholisi y Cyngor Sir o gadw hen enwau caeau neu gaeau cyfagos yn fyw a'u defnyddio fel enwau ar ddatblygiadau newydd. Mae y tai newydd ar lôn Stryd y Goron wedi eu henwi ar ôl enw hen gae sydd wedi ei gofnodi ar fap Y Degwm ac ar y pryd yn eiddo i Reithor Eglwys. Cofnodwyd enw'r cae fel Ty'n Llan.	Kerry Parry AMP – AMP have responded enclosing a letter from Anglesey County Council confirming that the Crown St development will be called Stad Ty'n Llan. In accordance with the County Council's policy of keeping old field names or neighbouring fields alive and using them as names for new developments. The new houses on Crown Street lane are named after the name of an old field which is recorded on the map of Y Degwm and at the time owned by the Rector of Eglwys. The name of the field was recorded as Ty'n Llan.
6.2	Andrew Charles O'Callaghan – Derbyniwyd llythyr gan Mr O'Callaghan yn gofyn a ellir ei ystyried yn aelod o'r cyngor. Mae y Cyngorydd T D Roberts wedi penderfynu ymddiswyddo fel aelod a bydd yn ysgrifennu at y Clerc. Mae hyn yn gadael un swydd wag ar y cyngor. Cytunwyd felly i dderbyn y cais gan Mr O'Callaghan a'i gyfethol i'r cyngor.	Andrew Charles O'Callaghan – A letter has been received from Mr O' Callaghan asking if he can be considered as a member of the council. It is understood that Cllr T D Roberts has decided to stand down as a member and will write to the Clerk. This leaves one vacancy on the council. It was agreed therefore to accept the application from Mr O'Callaghan and co-opt him on to the council.
7	Materion Eraill	Other Matters
7.1	Enw datblygiad Crown St – gweler 6.1	Name of Crown St development – see 6.1
7.2	Biniau baw cŵn – Cytunwyd gosod 2 fin yng Ngwalchmai – un ar y polyn ar y llwybr cyhoeddus wrth fynedfa Gweithdy ac un arall ger y cae chwarae. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am ganiatâd ac yn gwneud ymholiadau ynghylch costau.	Bins dog waste – It was agreed to place 2 bins in Gwalchmai – one on the pole on the public footpath at the entrance to Gweithdy and another near the playing field. The Clerk will ask the County Council for permission and will make enquiries regarding costs.
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 02.06.25	Signature Chairman Date 02.06.25

8	Materion ariannol	Financial Matters
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:	It was agreed to pay the following:
8.1	N Williams £300 (taliad blynyddol i ofalwr y cloc)	N Williams £300 (annual payment to clock caretaker)
8.2	G Owen £82.50 (torchau Diwrnod VE)	G Owen £82.50 (VE Day wreaths)
8.3	Zurich Municipal £618.69 (yswiriant blynyddol)	Zurich Municipal £618.69 (annual insurance)
8.4	Dywedodd y Cynghorydd Ann Williams fod yr Urdd yn diolch i'r cyngor am ein rhodd o £500 i eisteddfod 2026.	Cllr Ann Williams stated that the Urdd express thanks to the council for our donation of £500 to the 2026 Eisteddfod.
9	Materion ar gyfer y cyfarfod nesaf	Matters for the next meeting
9.1	Bryn Cwr, Gwalchmai	Bryn Cwr, Gwalchmai
	Llofnod Cadeirydd Dyddiad 02.06.25	Signature Chairman Date 02.06.25